

Eco-Sgolion

Eco-Schools

# Llwybrau Trafnidiaeth

Archwilio sut y gall gwneud dewisiadau (fel cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus) helpu i leihau llygredd ac amddiffyn y blaned.

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Gwybodaeth Ymarferwyr

Mae cludiant yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd. Mae'n helpu pobl i gyrraedd ysgol, gwaith, siopau, ac ymweld â theulu a ffrindiau. I ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gall deall gwahanol fathau o gludiant hefyd gefnogi annibyniaeth, ymwybyddiaeth o ddiogelwch a dealltwriaeth gymdeithasol.

Mae cludiant yn dod mewn sawl ffurf: cerdded, beicio, bysiau, trenau, ceir ac awyrennau. Mae gan bob un effaith wahanol ar bobl a'r blaned. Mae rhai ffurfiau o deithio yn defnyddio ynni sy’n dod o losgi tanwyddau ffosil, tra bod eraill yn dibynnu ar ynni glanach, adnewyddadwy neu bŵer dynol.

Pam mae hyn yn bwysig:

Mae helpu dysgwyr i archwilio sut a pham rydym yn teithio yn cefnogi sgiliau bywyd pwysig ac yn adeiladu chwilfrydedd am y byd o’u cwmpas. Mae hefyd yn agor cyfleoedd ar gyfer dysgu synhwyraidd — symudiad, sain, cyffwrdd ac archwilio gweledol, sydd yn hanfodol i lawer o ddysgwyr ADY gymryd rhan a deall syniadau haniaethol.

Mae trafnidiaeth yn un o'r cyfranwyr mwyaf i newid hinsawdd. Mae'r rhan fwyaf o geir, bysiau, awyrennau a llongau yn cael eu gyrru â thanwydd fel petrol neu disel. Pan fydd y tanwyddau hyn yn llosgi, maen nhw'n rhyddhau nwy carbon deuocsid ($CO_2$) a nwyau tŷ gwydr eraill i'r awyr. Mae'r nwyau hyn yn dal gwres ac yn achosi i dymheredd y Ddaear godi; proses sy'n cael ei hadnabod fel cynhesu byd-eang.

Mae cynhesu byd-eang yn newid ein hinsawdd, gan arwain at:

- Tywydd mwy eithafol (stormydd, tywydd poeth, llifogydd)
- Cynnydd yn lefelau’r môr
- Difrod i gynefinoedd a bioamrywiaeth

Mae dysgu am drafnidiaeth a newid hinsawdd yn helpu dysgwyr i ddeall bod dewisiadau bob dydd yn bwysig. Drwy ddefnyddio dewisiadau teithio cynaliadwy fel cerdded, beicio, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu rannu car; gall pob un ohonom helpu i leihau llygredd a diogelu ein planed.

Bydd dysgwyr yn gwneud cysylltiadau syml ond pwerus rhwng sut rydym yn teithio a sut mae'n effeithio ar y amgylchedd. Trwy chwarae synhwyraidd ac archwilio'r byd go iawn, bydd dysgwyr yn dechrau:

- Adnabod gwahanol ffyrdd o deithio
- Cymharu pa rai sy'n well i'r blaned
- Deall fod gweithredoedd bach — fel cerdded neu rannu cludiant — yn gallu gwneud gwahaniaeth

Mae'n sylfaen ar gyfer gwaith diweddarach ar ynni, llygredd, neu fyw'n gynaliadwy ac mae'n cysylltu'n gryf â gweledigaeth Cwricwlwm Cymru ar gyfer dinasyddion moesegol, gwybodus a gweithgar.

Eco-Sgolion
Eco-Schools

# Gweithgaredd

Bydd dysgwyr yn archwilio ac yn profi gwahanol fathau o drafnidiaeth trwy weithgaredd sy'n seiliedig ar symudiad ac yn aml-synhwyraidd ac yn darganfod effaith amgylcheddol pob modd o drafnidiaeth.

# Cam 1: Creu 'Gorsafoedd Archwilio Synhwyraidd'

Gan ddefnyddio Adnodd Gweithgaredd 1 (isod), gosodwch 3-4 "gorsaf cludiant" o amgylch yr ystafell neu y tu allan.

- Gorsaf cerdded a beicio
- Gorsaf ceir
- Gorsaf bws/rheilffordd
- Gorsaf awyren (dewisol)

# Cam 2: Arbrofi = Aer glân neu fudr?

Llenwch ddau jâr clir â phêlau cotwm

- Jâr 1: Yn cynrychioli aer glân (o gerdded neu beicio),
- Jâr 2: Yn cynrychioli aer llygredig (o geir). I 'lygru' jâr 2, diferwch ychydig o liw bwyd du neu ddŵr a siarcol ynddo.

Nawr, trafodwch pa aer fydden well gyda chi anadlu? Pam mae'r aer wedi troi'n llwyd/du?

### Opsiwn estynedig:

Gallwch ddangos aer 'budr'/llawn llygredd trwy osod hosan gwyn dros allfa car a throi'r injan ymlaen. Pan fyddwch chi'n ei dynnu i ffwrdd, fe welwch ei fod wedi mynd yn ddu.

Trafodwch: Pa aer fydden well gyda chi anadlu? Pam mae'r hosan wedi troi'n llwyd/du? Pam mae hyn wedi digwydd os nad yw'r car yn symud; oes angen yr injan ymlaen pan nad ydym yn gyrru?

# Cam 3: Myfyrio Creadigol

Gall dysgwyr creu posteri neu gludlun "Addewid Teithio Gwyrddach".

- Cynnwys lluniau o gerddwyr, beiciau, bysiau ac ati.
- Ychwanegu'r ymadrodd "Gallaf helpu'r Ddaear drwy…"
- Os nad oes gan ddysgwyr dewis ar eu dulliau cludiant, gallant greu poster ar gyfer eu hathrawon i'w helpu i wneud dewisiadau gwell, neu ar gyfer rhieni i beidio â gadael y cerbydau'n rhedeg wrth gasglu plant o'r ysgol.

# Cam 4: Ewch dros y cwestiwn unwaith eto ‘Sut all ein dewisiadau teithio helpu’r Ddaear?’

Anogwch eich dysgwyr i rannu un newid y gallen nhw ei wneud, neu y gallen nhw annog eraill i’w wneud (e.e. diffodd yr injan pan yn segur).

Eco-Sgolion

Eco-Schools

# Adnodd Gweithgaredd 1: Creu 'Gorsaf Archwilio Synhwyraidd'

| Gorsaf | Cerdded | Beicio | Car | Bws/Trên | Awyren |
|---|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau | Llwybr o laswellt neu â gwead, bod y tu allan/arogl yr awyr agored e.e. glaswellt ffres/pinwydd. Clustffonau a'u hoff gerddoriaeth. | Beiciau go iawn neu thegannau, helmedau. Tambwrin i efelychu synau beicio. | Mat ffordd, ceir chwarae, synau peiriant, arogl petrol (chwistrell persawr). Offerynnau taro i efelychu sŵn ceir. | Trefnwch cadeiriau fel bws, cael fideo neu effeithiau sain o daith. Corn i efelychu trên. | Ffan ar gyfer gwynt, sain hedfan a fideo, glôb i ddangos pellteroedd hir. Dysgwyr yn gwneud eu seiniau 'wwsh' eu hunain ac efallai hyd yn oed seiniau 'babï bach yn crio'! |
| Tasg | Cerdded ar hyd y llwybr. Gwrando ar synau natur. | 'Beicio' ar hyd y llwybr. Gwrandewch ar y synau (cloch beiciau a.y.y.b). | Symud ceir ar hyd mat y ffordd, sylwch ar yr arogleuon/sŵn. | Gweld faint o bobl y gallwch eu ffitio yn eich "bws". | Gweld sut fyddech chi'n cyrraedd y maes awyr – gyrru ychwanegol/tren? |
| Sgwrs | A yw hyn yn achosi llygredd? Sut mae'ch corff a'ch meddwl yn teimlo pan fyddwch chi'n symud fel hyn? | A yw hyn yn achosi llygredd? Sut mae'ch corff a'ch meddwl yn teimlo pan fyddwch chi'n symud fel hyn? | Ble mae'r mwg yn mynd? Sut mae hynny'n effeithio ar yr aer? | Os bydd mwy o bobl yn rhannu bws, sut mae hynny'n helpu? | Mae awyrennau'n helpu ni i deithio'n bell, ond maen nhw'n creu llawer o lygredd. |

# Cysylltiadau â’r Cwricwlwm

| Dibenion | Meysydd dysgu a phrofiad | Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig |
|---|---|---|
| Dinesyddion moesegol a gwybodus<br><br>Cyfranwyr mentrus a chreadigol<br><br>Unigolion iach, hyderus | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Mae’r byd o’n cwmpas yn llawn pethau byw sy’n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |
| | Dyniaethau | Mae dinasyddion gwybodus yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth ac yn barod i chwarae eu rhan yn y byd. |
| | Iechyd a Lles | Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |

# Camau Nesaf a Syniadau Eraill:

- Ewch am dro lleol i weld y dulliau cludiant yn bersonol – ewch i orsaf bws, llwybr beicio neu orsaf drenau. Sylwch ar wahanol synau, aroglau a symudiadau.
- Her Cyfri Cludiant: Cyfrif sawl car, beic, bws, a cherddwr rydych chi'n eu gweld dros gyfnod penodol. Creu siart bar neu pictogram sy’n dangos y gwahanol ddulliau cludiant.
- Creu posteri neu arddangosfa i’r dosbarth i ddangos dulliau teithio cynaliadwy.

# Dolenni Nodau Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig:

